



GWYBODAETH I YMGEISWYR: SWYDD RHEOLWR SHERMAN 5 CONTRACT TYMOR PENODOL (TAN FIS MAWRTH 2023)

Ionawr 2022

Annwyl Ymgeisydd

Dyma becyn cais ar gyfer swydd Rheolwr Sherman 5 yn Theatr y Sherman. Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y swydd.

Mae gwaith ymgysylltu Theatr y Sherman â chymunedau drwy ein rhaglen arloesol Sherman 5, a'n gwaith Ymgysylltu Creadigol sy'n arwain y sector, yn ganolog i'n gwaith, gyda chefnogaeth sylweddol gan Sefydliad Paul Hamlyn a Sefydliad Esmee Fairbairn. Yn 2019, Theatr y Sherman oedd y theatr gyntaf yng Nghymru i gael statws Theatr Noddfa.

Diben y swydd newydd hon yw darparu cefnogaeth strategol ar gyfer gweinyddu a chydlynu gweithgarweh Sherman 5 yn Theatr y Sherman. Bydd rhan sylweddol o'r swydd yn canolbwyntio ar waddol y fenter, gan sicrhau ei bod wedi'i gwreiddio yn y sefydliad, ac yn cael ei chefnogi i barhau i greu'r effaith hon ar gyfer ein cynulleidfaoedd a'n cymunedau y tu hwnt i'r cyllid presennol, o 2023 ymlaen.

Theatr y Sherman yw un o brif theatrau cynhyrchu gwledydd Prydain, ac mae'n un o sefydliadau diwylliannol pwysicaf Cymru.

Wedi'i lleoli yng nghanol Caerdydd, mae Theatr y Sherman yn creu ac yn curadu theatr ragorol ar gyfer pobl Caerdydd, Cymru, a'r tu hwnt. Drwy ganolbwyntio ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd, ac ar feithrin artistiaid sy'n byw neu'n dod o Gymru, mae'r Sherman yn bwerdy i theatr Cymru. Mae Theatr y Sherman yn adrodd straeon lleol sydd â pherthnasedd byd-eang drwy ei chynrychiadau a gaiff eu hymarfer a'u creu o dan ei tho yn y brifddinas. Mae'r Sherman yn lle i bawb. Mae'n creu cyfleoedd i ddinasyddion Caerdydd gysylltu â theatr drwy waith ymgysylltu ysbrydoledig ar sail gweledigaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi mynd o nerth i nerth gyda chydnyddiaeth ar lwyfan gwobrau cenedlaethol, canmoliaeth gan y beirniaid i'n gwaith a thrwy gynyddu ein cynulleidfaoedd. Rydyn ni wedi defnyddio'r amser a roddwyd i ni yn ystod y pandemig i wella'r adeilad, ein systemau, a'n hisadeiledd, ac rydyn ni bellach yn chwilio am aelodau newydd i ymuno â'r tîm ar draws nifer o swyddi.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn gyffrous o waith yn 2022, ac edrych ymlaen at flwyddyn ein hanner canmlwyddiant yn 2023, mae ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn a bydd y rôl hon yn chwarae rhan hanfodol yn hynny.



Rydyn ni eisiau i Theatr y Sherman fod yn hygyrch i bawb ac felly mae'n hynod bwysig i ni fod ein tîm yn y theatr yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws y ddinas a thu hwnt. Rydym felly'n croesawu'n arbennig ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau B/byddar ac anabl sy'n cael eu tangynrychioli o fewn ein tîm ar hyn o bryd.

I wneud cais am y swydd, llwythwch y ffurflen gais, y daflen eglurhaol a'r ffurflen monitro cyfle cyfartal i lawr o'n gwefan: <https://www.shermantheatre.co.uk/amdanom-ni/jobs/?lang=cy> a'u hanfon i recruitment@shermantheatre.co.uk. Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw. Y dyddiad cau yw **hanner dydd, ddydd Mercher 16 Chwefror 2022**. Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais dros e-bost.

Rydyn ni'n gobeithio cynnal cyfweiliadau **ddydd Llun 28 Chwefror 2022**. Rhowch wybod i ni, ar y daflen flaen, a fydddech ar gael am gyfweiliad ar y dyddiad hwnnw fel y byddwn yn gwybod mewn da bryd os bydd angen i ni wneud trefniadau eraill ar gyfer unrhyw ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cyn i chi wneud cais, neu i drafod unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau hygyrchedd er mwyn eich galluogi i gymryd rhan yn y broses gyfweld yn llawn, cysylltwch â ni drwy recruitment@shermantheatre.co.uk

Diolch am eich amser ar y cais hwn - rydym wir yn edrych ymlaen at glywed gennych, ac at ystyried sut bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch angerdd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith.

Pob lwc gyda'ch cais

Yn gywir

Julia Barry
Cyfarwyddwr Gweithredol
Theatr y Sherman

DISGRIFIAD SWYDD: RHEOLWR SHERMAN 5

Mae Theatr y Sherman yn dymuno penodi Rheolwr Sherman 5 i weithio gyda Chydlynnydd Sherman 5 i ddarparu rhaglen eang o fentrau i gefnogi aelodau. Mae Sherman 5 yn canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau a sicrhau bod Theatr y Sherman mor agored a hygyrch â phosib, gan gefnogi pobl i oresgyn unrhyw amgylchiadau personol neu ymarferol sy'n eu rhwystro rhag dod i'r theatr.

Cyflog:	£25,000 y flwyddyn.
Tymor:	Cynigir y swydd hon fel swydd tymor penodedig tan fis Rhagfyr 2022, yn amodol ar gwblhau'r cyfnod prawf chwe mis yn llwyddiannus.
Oriau gwaith:	39 awr yr wythnos.
Gwyliau:	20 diwrnod y flwyddyn pro rata, ynghyd â'r 8 gŵyl banc/gyhoeddus gydnabyddedig, gyda diwrnodau yn cronni ar gyfer hyd cyfnod eich gwasanaeth hyd at 25 diwrnod yn ogystal â gwyliau banc/cyhoeddus.
Cyfnod Rhybudd:	Mis, gydag wythnosau ychwanegol yn cronni am hyd y gwasanaeth. (Wythnos yw'r cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf.)
Pensiwn:	Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn gweithle cymwys.
Hawl i weithio:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennaeth o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006.
Cyfeiriadau:	Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar gael geirdaon sy'n foddhaol i Theatr y Sherman.
Dyddiad dechrau:	Mae'r swydd ar gael yn syth.

Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac mae hi ar agor i ymgeiswyr 18 oed neu'n hŷn.

Buddion Anghytundebol

Rydym yn annog yr holl staff i weld cymaint o sioeau â phosibl ac i fod yn rhan o bob cam o'r broses gynhyrchu ar gyfer cynrychiadau Theatr y Sherman. Gwahoddir pob aelod o staff i fynychu Noson y Wasg ar gyfer cynrychiadau Theatr y Sherman, ynghyd â thocynnau am ddim i'r rhan fwyaf o sioeau. Rydym hefyd yn cynnig gostyngiad staff yn y Caffi Bar i bob aelod o staff.

DISGRIFIAD SWYDD RHEOLWR SHERMAN 5

Prif ddiben y swydd:

Mae Theatr y Sherman yn ddiolchgar am gael grant Mwy a Gwell gan Sefydliad Paul Hamlyn, er mwyn datblygu rhaglen arloesol Sherman 5 ymhellach tan fis Rhagfyr 2022. Nod y grant yw ein helpu i wneud cynnydd sylweddol yn ein gwaith i ddenu ac i adeiladu perthnasau gyda chynulleidfaoedd o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn ein cymunedau lleol.

Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio gyda Chydlynnydd Sherman 5 i ddarparu rhaglen eang o fentrau. Mae Sherman 5 yn canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau a sierhau bod Theatr y Sherman mor agored a hygyrch â phosib, gan gefnogi pobl i oresgyn unrhyw amgylchiadau personol neu ymarferol sy'n eu hatal rhag dod i'r theatr.

Mae'r swydd hon yn gofyn am y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol, trylwyredd gweinyddol, sgiliau ymchwil a dadansoddi, arbenigedd cyfathrebu, a'r gallu i ddarparu cymorth i'r aelodau. Bydd rhan sylweddol o'r swydd yn canolbwyntio ar waddol y fenter, gan sierhau ei bod wedi'i gwreiddio yn y sefydliad, ac yn cael ei chefnogi i barhau i greu'r effaith hon ar gyfer ein cynulleidfaoedd a'n cymunedau y tu hwnt i'r cyllid presennol, o 2023 ymlaen.

Bydden ni'n gwerthfawrogi'n arbennig geisiadau gan ymgeiswyr yn y cymunedau hynny rydyn ni'n gweithio â nhw drwy Sherman 5.

Yn adrodd i:

Cyfarwyddwr Gweithredol

Cydberthnasau allweddol:

Cyfarwyddwr Artistig, Pennaeth Codi Arian a Datblygu, y Tîm Ymgysylltu Creadigol, y Tîm Marchnata a Chyfathrebu, a'r Rheolwr Gwerthu a Mewnwelediad.

Yn gyfrifol am:

Cydlynnydd Sherman 5

CYFRIFOLDEBAU A DYLETSWYDDAU:

Gweithio gyda Chydlynnydd Sherman 5 i ddatblygu a chyflawni pob agwedd ar gynllun strategol *Mwy a Gwell*.

1 Cynllunio Strategol

Adeiladu ar waith tîm Sherman 5 i ddatblygu'r aelodaeth a dwysáu cyfleoedd ymgysylltu ag aelodau wrth i Theatr y Sherman ailagor ein drysau i'n cymunedau ar ôl Covid. Datblygu cynllun gwaddol cadarn i sierhau bod dysgu ac effaith menter Sherman 5 wedi'i gwreiddio yn Theatr y Sherman ac yn cael adnoddau digonol o 2023 ymlaen.

- Ar y cyd â Chydlynnydd Sherman 5, cynllunio a gweithredu cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ailgysylltu ag aelodau Sherman 5, a gyrru aelodaeth newydd hyd ddiwedd y cyllid presennol.

- Creu cynllun gwaddol ar gyfer Sherman 5 gan sicrhau ei fod yn cael adnoddau digonol er mwyn gallu parhau y tu hwnt i 2022.
- Monitro gwariant y gyllideb yn effeithiol, gan ddefnyddio Archebion Prynu a thracio anfonebau, a adrodd yn rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol.
- Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ac amserol am Sherman 5 yn cael ei chynhyrchu ar gyfer y Tîm Gweithredol, y Bwrdd, a chyllidwyr yn ôl yr angen.
- Ar y cyd â Chydlynnydd Sherman 5, rheoli'r gydberthynas gyda Chredydau Amser Tempo a goruchwyllo cyfleoedd ennill a gwario.

2 Rheoli Ystadegau a Chronfeydd Data

Rheoli a chynnal cofnodion Sherman 5 ar gronfa ddata Spektrix, yn unol â darpariaethau GDPR.

- Sicrhau bod y cofnodion yn gywir ac yn gyfredol.
- Cyflawni diweddariadau blynyddol i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR.
- Datblygu a gwella'r casgliad data pan fydd hynny'n berthnasol/bosib.
- Cynnal dadansoddiad ystadegol i lywio datblygiad y prosiect.

3 Marchnata, Cyfathrebu ac Eirioli

Gweithio gyda Chydlynnydd Sherman 5 i gyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol gyda'r holl randdeiliaid. Arwain ar y gwaith o recriwtio aelodau Sherman 5, a'r gwaith cyfathrebu parhaus â nhw, mewn digwyddiadau ac mewn print, marchnata uniongyrchol, dosbarthu, e-farehnata, a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Llunio a chynhyrchu gwybodaeth a hwyluso dulliau cyfathrebu Sherman 5.
- Gwneud y defnydd mwyaf o gyfathrebu digidol – y wefan, e-byst a'r cyfryngau cymdeithasol – i gynyddu presenoldeb aelodau Sherman 5 mewn digwyddiadau yn y Sherman.
- Darparu cefnogaeth barhaus i aelodau Sherman 5, Cynrychiolwyr, grwpiau a phartneriaid mewn digwyddiadau a pherfformiadau.
- Cyfathrebu'n fewnol gyda holl aelodau staff Theatr y Sherman, aelodau'r Bwrdd, a gwirfoddolwyr, a darparu diweddariadau rheolaidd am Sherman 5.
- Sefydlu, mynychu ac adrodd ar gyfarfodydd gyda staff / partneriaid / cydweithwyr academaidd / cynrychiolwyr gwleidyddol allweddol.
- Gweithredu fel eiriolwr ar gyfer Sherman 5 a Theatr y Sherman.

4 Cefnogaeth Monitro a Gwerthuso

Arwain ar waith monitro a gwerthuso parhaus a chydlynu a dadansoddi gwerthusiadau / adborth gan aelodau a rhanddeiliaid eraill.

- Cydweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Cydlynnydd Sherman 5 a'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu i sicrhau y caiff yr holl adborth ei gofnodi'n gywir, pa bynnag ffordd y cafwyd yr adborth.
- Adrodd ar niferoedd cynulleidfaoedd Sherman 5 drwy gofnodion Spektrix.
- Cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'r holl adborth a gwerthusiadau o bob rhan o brosiect Sherman 5.
- Darparu adroddiadau a gwerthusiadau amserol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol, y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, a'r Pennaeth Codi Arian a Datblygu er mwyn paratoi ar gyfer yr adroddiadau rheolaidd i Sefydliad Paul Hamlyn.
- Ymchwilio a llunio adroddiadau prosiect ac astudiaethau achos Sherman 5.

Mae'n ddyletswydd cadw at y Datganiad Cyfle Cyfartal presennol a datganiadau polisi eraill fel y'u nodir yn y Llawlyfr i Staff.

Cofiwch: Byddwch wedi'ch cyflogi fel Rheolwr Sherman 5. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd gofyn i chi gyflawni dyletswyddau eraill ar yr un raddfa a phe cyn tâl, a'r un cyfanswm o oriau gwaith. Byddwch yn cael rhybudd bedair wythnos ymlaen llaw am unrhyw newidiadau mewn dyletswyddau.

MANYLEB YR UNIGOLYN: RHEOLWR SHERMAN 5

HANFODOL

Gwybodaeth, Profiad a Sgiliau

- Profiad o weinyddu theatr neu o weithio mewn cyd-destun datblygu cymunedol.
- Profiad ym maes marchnata a / neu gyfathrebu, yn ddelfrydol mewn amgylchedd cymunedol neu theatr.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog, yn llafar ac yn ysgrifenedig.
- Sgiliau ymchwil a dadansoddi cadarn.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf, a'r gallu i nodi ymyriadau defnyddiol a fyddai'n cefnogi'r tîm.
- Hyder a gallu amlwg i ddefnyddio meddalwedd prosesu geiriau, taenlenni, a chronfeydd data.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gefndir Datblygu Cynulleidfaoedd / Ehangu Mynediad / ardaloedd blaenorol Cymunedau yn Gyntaf.
- Gallu meithrin cysylltiadau cydweithredol drwy ddatblygu, cynnal a chryfhau partneriaethau ag eraill oddi mewn i'r sefydliad neu'r tu hwnt iddo.
- Meddu ar sgiliau trefniadol a gweinyddol amlwg.
- Dealltwriaeth weithio dda o farchnata e-bost.
- Sgiliau technoleg gwybodaeth cadarn gyda'r gallu i greu cynnwys digidol ar gyfer sawl llwyfan.
- Defnydd effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol.
- Sylw ardderchog i fanylion

Nodweddion Personol

- Ymroddedig i weithio mewn tîm, agwedd hyblyg tuag at arferion gweithio
- Wedi'ch cymell gan ganlyniadau, gydag awydd cryf i ddatrys problemau a chyflawni gwaith yn drylwyr a gyda sylw at fanylion
- Brwdfrydig iawn, yn ymroddedig i gyflawni gwaith o ansawdd ac yn gallu cynllunio a threfnu eu llwyth gwaith eu hunain, a gweithio i derfynau amser.
- Ymrwymiad i arferion gorau a datblygiad proffesiynol parhaus
- Ymroddedig i gyfle cyfartal a chynhwysiant
- Brwdfrydedd tuag at y celfyddydau yn gyffredinol, a thua at theatr yn benodol
- Cyfeillgar a hyderus, gydag agwedd agos-atoch

DYMUNOL



- Dealltwriaeth o'r Gymraeg, neu'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Trwydded yrru lawn a glân